RHIFYN 9 – Medi 2011

Croeso i Nawfed Cylchlythyr

Panel Dinasyddion Ceredigion, 'Llais Ceredigion'

Dyma gylchlythyr diweddaraf Panel Dinasyddion Ceredigion. Cewch eich diweddaru ynghylch canlyniadau'n harolwg diwethaf ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd, neu a bwriedir eu cymryd gan y partneriaid yn dilyn eich ymatebion. Gan fod rhai penderfyniadau'n cymryd mwy o amser na'i gilydd, bwriadwn fynd yn ôl at rai pynciau a'r camau gweithredu a gymerwyd yn y dyfodol.

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf, sef Arolwg 9. Derbyniwyd 66% o'r holiaduron yn ôl wedi'u llenwi, sef cyfradd ymateb uchaf y Panel hyd yn hyn. Diolch! Heb eich sylwadau a'ch cyfraniad chi, ni allwn wella ein gwasanaethau na sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion a'ch disgwyliadau chi.

Rydym yn cynnwys pob arolwg sydd wedi ei orffen mewn raffl fawr, ac rydym yn falch o gyhoeddi mai'r ennillydd ar gyfer Arolwg 9 yw Ms Davies o ardal Aberystwyth.

Llongyfarchiadau ar ran yr holl bartneriaid! Os hoffech chi gael cyfle i ennill £50 y tro nesaf, llenwch Arolwg 10 a'i ddychwelyd atom ni cyn gynted â phosib.

Arolwg 9:

> Gofynnodd Cyngor Sir Ceredigion i chi ystyried eu Hamcanion Gwella.
> Gofynnodd Heddlu Dyfed-Powys i chi am eich barn ar flaenoriaethau ar gyfer gwariant yr heddlu, aflonyddu ar sail anabledd, a blaenoriaethau plismona lleol.
> Gofynnodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i chi am eich ymglymiad â'ch gwasanaeth iechyd lleol.

Ffurf y cylchlythyr:

Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r angen am arbedion effeithlonrwydd gan bob corff sector cyhoeddus, fe sylwch ein bod wedi newid ffurf ein cylchlythyrau, ac rydym nawr yn printio ar bapur wedi'i ailgylchu. Rydym hefyd yn lleihau'r nifer o gopïau rydym yn eu printio, a gyda hynny mewn golwg, os hoffech dderbyn eich arolwg a'ch cylchlythyr ar-lein, cysylltwch â Swyddog Ymchwil y Panel; gweler ei manylion ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Os ydych yn dymuno cael y wybodaeth hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain ffoniwch 01267 226262.

Cyngor Sir Ceredigion

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl Gynghorau Sir nodi eu blaenoriaethau bob blwyddyn ar gyfer gwella'r hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud. Y blaenoriaethau hyn, sef Amcanion Gwella, yw'r materion a'r camau gweithredu yr ystyrir fwyaf pwysig yn 2011-2012. Gofynnwyd i chi ystyried Amcanion Gwella'r Cyngor yn Arolwg 6 (Ebrill 2010), ac ystyriwyd eich ymatebion wrth benderfynu arnynt. Mae pum maes blaenoriaeth wedi'u nodi ar gyfer 2011-2012:

A. Trawsffurfio ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer dinasyddion.
B. Gwella cyfleoedd dysgu ar gyfer pob un o'n dysgwyr.
C. Darparu amgylchedd diogel o ansawdd uchel.
Ch. Gwella'r modd yr ydym yn diogelu'r rheiny sydd yn agored i niwed.
D. Hyrwyddo a datblygu Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai pob un o'r meysydd blaenoriaeth a restrir uchod fod yn Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
A.	**94%**	2%	4%
B.	**81%**	6%	13%
C.	**93%**	4%	3%
Ch.	**92%**	2%	6%
D.	**65%**	19%	16%

Roedd y nifer mwyaf ohonoch yn cytuno gyda blaenoriaeth 'A: Trawsffurfio ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer dinasyddion' (94% ohonoch). Fodd bynnag, dilynwyd hyn yn agos gan feysydd blaenoriaeth 'C: Darparu amgylchedd diogel o ansawdd uchel' (93%), ac 'Ch: Gwella'r modd yr ydym yn diogelu'r rheiny sydd yn agored i niwed' (92%). Y maes blaenoriaeth roedd y nifer mwyaf ohonoch yn anghytuno ag ef oedd 'D: Hyrwyddo a datblygu Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol' (roedd 19% ohonoch yn anghytuno).

Yna, fe'ch gwahoddwyd i gynnig blaenoriaethau i'r Cyngor eu gwella. Cymerodd y rhan fwyaf ohonoch y cyfle hwn i sylwi ar flaenoriaeth E (datblygu Aberystwyth). Roedd y rhan fwyaf ohonoch yn erbyn datblygu'r dref gan awgrymu y gallai ardaloedd eraill yng Ngheredigion gael eu hanwybyddu o ganlyniad i ddatblygiad o'r fath. Soniodd eraill am newidiadau yn y system addysg, y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, a phwysigrwydd blaenoriaethu cynnal a chadw traffyrdd a gwella trafnidiaeth gyhoeddus.

Diweddariad ynghylch Arolwg 9

Yn ôl y Panel Dinasyddion, y nôd pwysicaf i Gyngor Sir Ceredigion ei gyflawni yw "trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer y dinasyddion". Mae'r Cyngor wedi datblygu'r amcan hwn ymhellach drwy ddarparu gweledigaeth ar gyfer y sefydliad a chefnogir gan saith Amcan Strategol.

Gweledigaeth: *Mae Cyngor Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwerth am arian sy'n cefnogi economi cryf wrth hyrwyddo lles yn ein cymunedau a'n pobl.*

Amcanion Strategol:

> *Mae Ceredigion yn perfformio'n dda o ran cyflwyno gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion ein dinasyddion.*
> *Bydd Ceredigion yn darparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at fywydau iachach a diogelu'r rhai bregus yn y sir.*
> *Datblygir Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol cydnabyddedig.*
> *Teilwrir darpariaeth hyfforddiant ac addysg i gwrdd ag anghenion y rhai sy'n chwilio am gyfleoedd gyrfa yng Ngheredigion.*
> *Mae amodau a chyfleoedd yng Ngheredigion yn galluogi busnesau i ddatblygu a ffynnu.*
> *Mae Cyngor Ceredigion yn sicrhau'r deilliannau dysgu gorau i Geredigion.*
> *Mae Cyngor Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r pwrpas o ran cyflwyno gwasanaethau sydd ar eu fyny i'w dinasyddion.*

Mae'r ffocws a'r sylw ar adfywio Aberystwyth fel canolfan ranbarthol sy'n gwasanaethu Canolbarth Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth genedlaethol yng Nghynllun Gofodol Llywodraeth y Cynulliad, sy'n darparu cyllid ar gyfer datblygiadau yn y dref. Roedd nifer o sylwadau ac awgrymiadau y dylai Ceredigion gyfan dderbyn sylw ar gyfer adfywio a datblygu economaidd, nid yn unig Aberystwyth. O ganlyniad, mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar yr amcan allweddol canlynol, *"Hyrwyddo a datblygu adfywio economaidd ar draws y Sir",* fel un o'i Amcanion Gwella lefel uwch ar gyfer 2011-2012.

Heddlu Dyfed-Powys

Eich Blaenoriaethau ar gyfer Gwariant yr Heddlu

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus. Erbyn 2014-15, bydd yr arian a dderbynnir gan yr Heddlu mewn grantiau llywodraeth ganolog yr un faint, yn nhermau ariannol, ag yr oedd ym 1996-97, a'r un faint, mewn termau real, ag yr oedd ym 1986. Er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch sut y mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwario ei arian. Gan hynny, hoffwn wybod beth yw'ch blaenoriaethau chi o ran y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn gan Heddlu Dyfed-Powys.

Rhoddwyd rhestr i chi o brif feysydd gwariant yr heddlu:

> **Nifer y swyddogion heddlu lleol**
> **Nifer y gorsafoedd heddlu lleol**
> **Nifer y cerbydau heddlu**
> **Nifer y staff cefnogi, megis staff yn yr adrannau TG, Cyllid neu Adnoddau Dynol**
> **Nifer yr uwch swyddogion heddlu ac uwch staff**
> **Hofrennydd yr Heddlu**

Gofynnwyd i chi pa rai y dylid ***eu hamddiffyn rhag unrhyw doriadau***. Barn y rhan fwyaf ohonoch (86%) oedd 'nifer y swyddogion heddlu lleol'. Dewisodd 40% ohonoch 'nifer y gorsafoedd heddlu lleol', a dewiswyd 'hofrennydd yr heddlu' gan 25% ohonoch.

O ran y meysydd **y dylid eu torri**, dewisodd dros hanner ohonoch 'nifer yr uwch swyddogion heddlu ac uwch staff', (58%) a 'nifer y staff cefnogi, megis staff yn yr adrannau TG, Cyllid neu Adnoddau Dynol' (54%).
(Noder na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan fod y cwestiynau hyn yn rhai aml ddewis.)

Gofynnwyd i chi pa mor bodlon neu anfodlon fyddech chi i dalu mwy o Dreth y Cyngor er mwyn gwarchod y gwasanaethau a ddarperir gan eich Heddlu?

Dywedodd ychydig dros hanner ohonoch (55%) y byddech yn fodlon *iawn* i dalu 15c yr wythnos yn fwy o Dreth y Cyngor er mwyn gwarchod gwasanaethau a ddarperir gan eich Heddlu . Dywedodd 32% ohonoch y byddech yn fodlon *iawn* i dalu 16c-30c yn ychwanegol, gyda 32% pellach yn dweud y byddech yn fodlon i dalu cymaint â hynny'n fwy. Dywedodd y nifer mwyaf ohonoch na fyddech yn fodlon o gwbl i dalu swm ychwanegol o 31c-45c (40%), 46c-60c (53%), neu 61c-£1.00 (58%).

	15c	16c - 30c	31c - 45c	46c - 60c	61c - £1.00
Bodlon iawn	**55% (184)**	**32% (96)**	20% (59)	13% (38)	16% (51)
Eithaf bodlon	23% (75)	**32% (96)**	16% (47)	14% (40)	9% (28)
Ddim yn fodlon iawn	8% (26)	13% (38)	21% (62)	17% (50)	12% (39)
Ddim yn fodlon o gwbl	12% (39)	21% (65)	**40% (117)**	**53% (152)**	**58% (183)**
Ddim yn gwybod	2% (8)	3% (8)	3% (8)	3% (8)	4% (13)

Aflonyddu ar sail Anabledd

Mae aflonyddu ar sail anabledd yn ymddygiad digroeso, camfanteisiol neu gamdriniol yn erbyn pobl anabl sydd a'r diben neu'r effaith o amharu ar urddas, diogelwch neu annibyniaeth y sawl sy'n ei ddioddef. Mae aflonyddu ar sail anabledd yn cwmpasu bwlio a throsedd casineb yn erbyn pobl anabl.

Ydych chi'n credu bod pobl ag anableddau'n cael eu haflonyddu yn eich ardal chi e.e. trwy dderbyn sylwadau sarhaus neu ddifrod i eiddo?

Roedd ychydig dan hanner ohonoch (48%) o'r farn nad oedd pobl ag anableddau'n cael eu haflonyddu yn eich ardal leol. Roedd 9% (40 ohonoch) wedi dioddef neu'n adnabod rhywun oedd wedi dioddef aflonyddu mewn perthynas â'ch/â'u hanabledd. Roedd 5% (23 ohonoch) wedi riportio aflonyddu o'r fath i'r heddlu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diweddariad ynghylch Aflonyddu ar sail Anabledd

Ar y 3ydd o Ragfyr 2009, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, cyhoeddodd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei fwriad i gynnal ymchwiliad ffurfiol i weithredoedd awdurdodau cyhoeddus er mwyn cael gwared ar aflonyddu ar sail anabledd a'r hyn sydd yn ei achosi.

Ym mis Rhagfyr 2011, dan arweiniad y Dirprwy Brif Gwnstabl Jackie Roberts (Arweinydd Cymru Gyfan dros Gydraddoldeb), cyfwelwyd â'r pedwar Heddlu yng Nghymru gan y Comisiwn fel rhan o'r ymchwiliad. Yn ystod gaeaf 2010/11, cynhaliwyd dros 72 cyfweliad gan y tîm Ymchwilio, yn ogystal â 54 gwrandawiad gydag awdurdodau cyhoeddus a gweithredwyr trafnidiaeth, a 12 cyfarfod gyda phobl anabl a'u sefydliadau ledled Cymru, Yr Alban a Lloegr.

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn drafftio ei adroddiad terfynol, sydd i'w gyhoeddi ar ddydd Llun y 12fed o Fedi 2011. Er mwyn cynnal ein hymchwiliad ein hun ar aflonyddu ar sail anabledd, gofynnodd Heddlu Dyfed-Powys i aelodau o Banel Dinasyddion Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ddweud wrthym am unrhyw brofiadau y maent wedi cael neu wedi clywed amdanynt. Diolch. Byddwn yn dweud wrth ein Swyddogion Troseddau Casineb am yr adborth a roddwyd gennych.

'Canfyddiadau'r Cyhoedd – Blaenoriaethau':

Mae canlyniadau'r cwestiynau 'Canfyddiadau'r Cyhoedd – Blaenoriaethau' a gynhwysir yn Arolwg 9 yn dal i gael eu dadansoddi. Ceir adroddiad arnynt yn rhifyn nesaf y cylchlythyr. Defnyddir eich safbwyntiau wrth osod blaenoriaethau i'r heddlu ar gyfer 2012/13.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Mae Gwasanaeth Iechyd Hywel Dda wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru darparu gofal o'r safon uchaf. Mae angen i ni weithio'n agosach gyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu, ac mae hyn yn cynnwys cyfathrebu parhaus ynghylch newidiadau a datblygiadau i'ch gwasanaethau iechyd.

Ydych chi'n teimlo bod gennych ddigon o wybodaeth am eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu?



Roedd 32% ohonoch o'r farn nad oedd y Bwrdd Iechyd yn darparu llawer o wybodaeth o gwbl. Fodd bynnag, roedd 30% ohonoch yn credu eich bod yn derbyn *eithaf digon* neu *digon* o wybodaeth am y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo (25% a 5% yn ôl eu trefn), ac roedd 27% ohonoch yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybodaeth am bynciau penodol.

Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn dysgu am wasanaethau iechyd a datblygiadau o ran iechyd yn eich ardal chi?

Roedd gan 42% ohonoch ddiddordeb mawr, ac roedd gan 36% ohonoch *eithaf* diddordeb mewn clywed am wasanaethau iechyd a datblygiadau o ran iechyd yn eich ardal chi. Roedd gan 10% ohonoch ddiddordeb mewn pynciau penodol. Mae'r gwasanaethau a'r datblygiadau rydych chi'n dymuno clywed amdanynt yn cynnwys gwybodaeth am Ysbyty Bronglais (gweler y diweddariad), yr *holl* neu *unrhyw* wasanaethau / datblygiadau o ran iechyd, gwasanaethau i'r henoed, gwasanaethau iechyd deintyddol, a threfnidiaeth / trefn lywodraethol y Bwrdd Iechyd.

Sut hoffech chi gael gwybod mwy am y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu?

Y 10 ffordd fwyaf poblogaidd oedd: (Noder na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan fod y cwestiynau hyn yn rhai aml ddewis.)

(1)	Meddygfeydd teulu	53%	**(6)**	Taflenni	27%
(2)	Cylchlythyr drwy'r post	36%	**(7)**	Hysbysfyrddau / posteri mewn mannau cyhoeddus	23%
(3)	Y wasg / radio lleol	35%	**(8)**	Llyfrgelloedd	20%
(4)	Fferyllfeydd	31%	**(9)**	Ysbytai / Ysbytai Cymunedol	18%
(5)	Cylchlythyr drwy e-bost	29%	**(10)**	Gwefan y Bwrdd Iechyd	15%

Diweddariad ynghylch Ysbyty Bronglais, Aberystwyth :

Mae Ann Bennett, aelod hiraf ei gwasanaeth o staff Ysbyty Bronglais, wedi torri'r mawn cyntaf i nodi cychwyn cynllun Blaen Tŷ, prosiect sydd werth £38miliwn. Mae Ann, cogyddes gyda thîm arlwyo'r ysbyty, wedi gweithio ym Mronglais ers dros deugain o flynyddoedd. Dywedodd, "Mae'r ysbyty wedi newid cymaint dros y blynyddoedd ac rwy'n siwr y bydd y datblygiad newydd o fudd mawr i Fronglais."

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd gwaith adeiladau'n cael ei gwblhau er mwyn rhoi gwasanaethau newydd a gwell ystafelloedd i gleifion. Mae'r cynllun yn cynnwys adran damweiniau ac achosion brys newydd, uned penderfyniadau clinigol, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol, uned llawfeddygaeth ddydd bwrpasol, gan gynnwys dwy theatr lawdriniaeth newydd ar gyfer achosion dydd, ward lawfeddygol newydd ar gyfer arhosiad byr, uned famolaeth newydd gan gynnwys adleoli clinigau cyn geni a phediatrig, adnewyddu ac adleoli gwasanaethau patholeg ac adnewyddu'r prif theatrau yn eu lleoliad presennol. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy fynd i www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/tudalen/52972.

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cyhoedd brîff ar ein strategaeth gwasanaethau clinigol sydd wedi'i hanelu at adeiladu gwasanaeth iechyd cynaliadwy o safon uchel. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy fynd i: www.bihyweldda.wales.nhs.uk/Fframwaith-Pum-Mlynedd.

Ydych chi'n teimlo eich bod yn chwarae digon o ran yn eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu?



Dywedodd y nifer mwyaf ohonoch (64%) nad oeddech yn chwarae rhan yn eich Bwrdd Iechyd. Roedd gan 17% ohonoch ychydig o ran mewn meysydd penodol, tra bod 7% a 4% ohonoch yn teimlo eich bod yn chwarae tipyn o ran a rhan fawr yn eich Bwrdd Iechyd, yn ôl eu trefn.

Roedd 57% ohonoch yn dymuno chwarae mwy o ran yn eich gwasanaethau iechyd lleol: roedd 58% ohonoch yn dymuno cael cyfle i roi adborth o adref e.e. holiaduron, roedd 38% ohonoch eisiau derbyn cylchlythyr rheolaidd drwy'r post, a dywedodd 37% ohonoch eich bod eisiau derbyn cylchlythyr drwy e-bost. Roedd 31% ohonoch yn dymuno cael cyfle i roi adborth trwy weithgareddau megis grwpiau ffocws a fforymau.

Mae **Siarad Iechyd /Talking Health** wedi'i lansio'n swyddogol yng Ngheredigion.

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi lansio cynllun cynnwys ac ymgysylltu newydd o'r enw Siarad Iechyd/Talking Health. Nod y cynllun yw rhoi cyfle i staff a phobl leol gael mynegi eu barn am y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd lleol eu cynllunio, eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Mae Siarad Iechyd/Talking Health yn agored i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r bwrdd iechyd neu sy'n byw yng Ngheredigion, Sir Gâr neu Sir Benfro.

Bydd aelodau'n derbyn cylchlythyrau a newyddion rheolaidd am y gwasanaethau iechyd sydd ar gael, a byddant yn gallu bod yn rhan o drafodaethau parhaol am faterion iechyd mewn sawl ffordd: digwyddiadau, paneli darllenwyr, grwpiau diddordeb, arolygon a thrwy wirfoddoli. Bydd aelodau hefyd yn cael cyfle i wella eu hiechyd eu hunain drwy dderbyn buddiannau a mentrau iechyd.

Siarad Iechyd
Siarad. Gwrando. Gwneud.
Talking Health
Speak. Listen. Act.

Dywedodd y Cadeirydd, Chris Martin "Croesawn farn pobl leol ac rydym am iddynt gymryd rhan – nid yn unig er mwyn gwella eu hiechyd eu hunain ond hefyd er mwyn gwella gwasanaethau gofal iechyd yn ystod y ddeng mlynedd nesaf."

Am fwy o wybodaeth ac i lawr lwytho ffurflen gais ewch i wefan Siarad Iechyd/Talking Health: www.siaradiechyd.wales.nhs.uk / www.talkinghealth.wales.nhs.uk. Gallwch gysylltu â ni ar 01554 779510 **neu** ysgrifennwch at RHADBOST BWRDD IECHYD HYWEL DDA.

Os hoffech wneud sylw ar unrhyw agwedd o'r Panel Dinasyddion, os hoffech newid ffurf eich holiadur, neu os nad ydych ar hyn o bryd yn aelod o Banel Dinasyddion Ceredigion ac yr hoffech dod yn aelod, cysylltwch â:

Post: Hannah Symons
Swyddog Ymchwil
Panel Dinasyddion Ceredigion
Datblygu Corfforaethol
Heddlu Dyfed-Powys
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF

Ffôn: 01267 226262
Ffacs: 01267 233634
E-bost: hannah.symons@dyfed-powys.pnn.police.uk

Da iawn am eich holl ymdrechion ac ar ran pob un o'r sefydliadau partner; Diolch!

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board
Heddlu • Police DYFED-POWYS
Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys Police Authority